LLANDYSILIO



CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG 2008

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Planed

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST
CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG LLANDYSILIO

Paratowyd Gan

GYMDEITHAS SYLIO

Mewn Cydweithrediad â

Cynnwys	***Tudalen***
Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen	**2**
Cefndir y Cynllun Gweithredu	**3**
Hanes y Gymuned	**3**
Llandysilio – Lle Arbennig	**4**
Prosiectau a gwblhawyd ers 2003	**4**
Cynllun Gweithredu:	
1. Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (yn cynnwys Cyfathrebu, Chwaraeon a Hamdden)	**6**
2. Amgylchedd	**9**
3. Treftadaeth a Diwylliant	**11**
4. Busnes a Menter (yn cynnwys Twristiaeth)	**12**
5. Tai	**14**
6. Trafnidiaeth a Phriffyrdd	**15**

Cyfarfu cymuned Llandysilio ar 18fed Mawrth 2008 adeg gweithdy cymunedol i adolygu'r Cynllun Gweithredu a dathlu llwyddiannau'r gorffennol. Ychwanegwyd nifer o gynigion newydd i'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys rhestr o'r llwyddiannau, a nodwyd cynnydd prosiectau sydd eisoes yn bodoli.
Cytunwyd y Cynllun Gweithredu Diwygiedig ar 30ain Medi 2008, yn dilyn cylchrediad o'r cynllun drafft i holl drigolion y gymuned.

CYFLWYNIAD A'R FFORDD YMLAEN

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Llandysilio yw i ddisgrifio cynigion a nodwyd gan y trigolion i'w gweithredu dros y blynyddoedd nesaf. Y prif nod yw i wella ansawdd bywyd yn y gymuned drwy hyrwyddo golwg yr ardal, drwy wella'r economi, gan gynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, a chryfhau ag amrywio'i atyniadau i'r holl drigolion ac ymwelwyr.

Trwy baratoi Cynllun Gweithredu a drefnir yn y gymuned, sy'n pwysleisio'r buddiannau y gellir eu sicrhau trwy ddynesiad cyfannol, awgrymir y gellid denu ariannu sector cyhoeddus a phreifat er mwyn gweithredu'r gwahanol fentrau a ddisgrifir yn y Cynllun.

Sylweddola'r cyfranwyr gwahanol i'r Cynllun Gweithredu mai'r ffordd orau i sicrhau cynnydd ydyw drwy drafodaeth a phartneriaeth gan fod llawer o'r cynigion yn cynnwys perchenogaeth tir ac eiddo gwahanol, diddordebau gwahanol a ffynonellau ariannu gwahanol. Er bod rhai o'r cynigion ar raddfa gymharol fechan, maent yn debygol o fod o fudd sylweddol i grwpiau arwyddocaol o fewn y boblogaeth arhosol. Mewn enghreifftiau eraill mae'r newidiadau a awgrymir ar raddfa fwy, a hwyrach fe gânt effaith fawr ar ystod eang o ddiddordebau.

Gobeithir cyflawni'r prosiectau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn cyn gynted â bo ymarferol gyda'r partneriaid amrywiol yn gweithio mewn undeb i gynllunio, ariannu a gweithredu cynlluniau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gwahodd partneriaid posib i droi'r cynigion yn realiti.

Sefydlwyd Cymdeithas Cleddau Ddu fel Grŵp Ardal ar gyfer Ward Maenclochog yn hwyr yn 2002. Er mwyn ennill y mwyaf budd gan ei statws o dan Amcan 2, Blaenoriaeth 3, cydweithredodd Llandysilio â'r cymunedau eraill yn Ward Maenclochog, i wneud cais am Swyddog Cymunedol, i weithio yn yr ardal er mwyn helpu gweithredu cynigion y Cynllun Gweithredu. Penodwyd y swyddog yn 2003 a gweithiodd yn agos o fewn Ward Maenclochog, yn cynnwys Llandysilio, hyd at ddiwedd Mehefin 2007.

Gobeithir bod arian a gynhyrchir o dan Rhaglen Cydgyfeirio presennol yn gallu cael ei ddefnyddio i ariannu nifer o'r prosiectau a nodwyd.

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Ym mis Medi 2002, gwahoddwyd PLANED (Rhwydwaith Gweithredu Lleol er Menter a Datblygu) gan Gyngor Cymuned Llandysilio i weithio gyda hwy i sefydlu Fforwm Cymuned yn cynnwys grwpiau a mudiadau gwirfoddol i drefnu Cynllun Gweithredu Cymunedol. Pwysleisiodd y gwahoddiad y dylid cynnwys pob oedran a chynrychiolwyr holl agweddau'r gymuned.

Fe wnaethpwyd llawer o waith gan y gymuned, gan gynnwys ymarfer "*Cynllunio ein Hyfory*" ym mis Medi 2001, ac yn ychwanegol roedd y gymuned wedi dechrau gweithio gyda PLANED i gyfrannu tuag at Grŵp Menter Ardal. Cytunwyd Cynllun Gweithredu Llandysilio mewn cyfarfod cyhoeddus yn Chwefror 2003 ac yn 2004 sefydlwyd Cymdeithas Sylio, fforwm cymunedol sy'n agor i'r holl aelodau o'r gymuned, er mwyn symud y cynllun hwn ymlaen.

Yn dilyn trafodaeth rhwng Cymdeithas Sylio a PLANED yn hwyr yn 2007, cytunwyd adolygu Cynllun Gweithredu 2003 fel rhan o weithgaredd 'Llunio ein Dyfodol'. Amcan y gweithdy oedd diweddaru ac ychwanegu cyfleoedd newydd at gynllun gweithredu 2003 ac archwilio prosiectau fydd yn cyfrannu at gynaladwyedd hir-dymor y gymuned. Byddai'r gweithdy hefyd yn cryfhau dealltwriaeth a brwdfrydedd cymunedol am fyw yn gynhaliadwy a rhoi cyfle i ddathlu'r llwyddiannau ers y Cynllun Gweithredu diwethaf.

Mae'r hyn a ddarganfuwyd adeg y gweithdy a chanlyniadau'r holiadur cymunedol wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn iddo gael ei drafod yn y cyfarfod cyhoeddus.

Fe wnaeth 31 o deuluoedd ymateb i'r holiadur cymunedol. Bu 19 ohonynt yn byw yn y gymuned ers dros 16 mlynedd, tra bod 9 yn byw yn Llandysilio rhwng 6 a15 mlynedd. Bu'r lleill yn byw yma am lai na 5 mlynedd. Ymhlith y rhesymau dro symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, ac eithrio cael eu geni yma, oedd oherwydd priodi, rhesymau gwaith, y lleoliad cyfleus, ymddeoliad a gan eu bod nhw'n hoffi'r gymuned. Cyflogaeth ac addysg oedd y prif resymau dros symud o Landysilio .

HANES Y GYMUNED

Pentref llinellog ydy Llandysilio yn ymestyn ar hyd yr A478, pedair milltir a hanner i'r gogledd o Arberth ac un filltir i'r gogledd o Glunderwen yng nghymuned Gorllewin Llandysilio. Mae ardal y gymuned yn cael ei amgylchynu ar bedair ochr gan afonydd a nentydd. Yn y gorllewin, cwm Cleddau sy'n creu'r ffin, yn y gogledd, afon Rhyd-y-Bil, i'r de, isafon y Cleddau, yr "Afon Conyn", ac i'r dwyrain, yr Afon Rhydybennau. Ceir tystiolaeth yn y plwyf, mewn safleoedd cestyll a gweithfeydd pridd, o hanes hir o wladychu ac er fod y mwyafrif o'r tai wedi canoli ar yr A478, mae llawer o ffermydd amrywiol i'w gweld yn y cefn gwlad lleol.

LLANDYSILIO – LLE ARBENNIG

Roedd naws cryf, a ddatblygwyd yn y cyfarfod ym Mawrth, bod y gymuned yn hunangynhaliol i raddau helaeth, gyda'r neuadd newydd ei hailwampio ac ymestyn, swyddfa'r post/siop, dewis o dafarnau, gwesty/motel, dau bopty, dau gapel, eglwys ac ysgol gynradd Brynconin ygnhyd â'r ysgol Steiner gerllaw, a maes chwarae'r pentref gyda'r ardal chwarae cyfagos. Mae ysbryd y gymuned yn gryf hefyd, gyda gwerthfawrogiad o'r clybiau amrywiol, gwasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael i drigolion, yn cynnwys y Clwb Cinio / Pensiynwyr, Clwb Garddio, dosbarthiadau Cyfrifiaduron, dosbarthiadau Ioga, Cylch Meithrin, y Llyfrgell Symudol a'r gwasanaeth bws newydd ei wella ar hyd yr A478. Gwelir y ffaith bod yr ardal yn wir ddwyieithog ac yn llawn diwylliant Cymreig yn bwysig. Gwerthfawrogir hefyd yr amgylchedd naturiol hardd a diddorol, y teithiau cerdded da, ag agosrwydd yr ardal at y mor. Sylwodd y rhai a oedd yn bresennol ar y pwysigrwydd o ddefnyddio gwasanaethau lleol, neu fyddan nhw yn gorfod cau.

Prosiectau a gwblhawyd ers Cynllun Gweithredu Llandysilio 2003

1. Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (yn cynnwys Chwaraeon a Hamdden)

- Ailwampwyd ac ymestynwyd neuadd y pentref yn cynnwys
  - mynediad cadeiriau olwyn
  - cyntedd newydd
  - ystafell gyfarfod newydd

- cyfleusterau storio ychwanegol
- gwell ynysiad, gwres ac effeithiolrwydd ynni
- system anwythiad dolen
- toiledau wedi'u diweddaru (yn cynnwys toiled i'r anabl)
- offer newydd ar gyfer y Clwb Cinio a defnyddwyr eraill y neuadd

- Adeiladwyd ardal chwarae aml-ddefnydd i'r de o'r Neuadd
- Adeiladwyd ardal chwarae fach gaeedig a gardd synhwyro ar gyfer Cylch Meithrin Llandysilio tu cefn i'r neuadd
- Capel Blaenconin – gwell fynediad i'r anabl
- Capel Pisga – gwell fynediad i'r anabl
- Mae'r porth mynwent yn Eglwys Sant Tysilio wedi'i ailosod
- Sefydlwyd gwefan (www.llandissilio.org.uk) ac mae'n tyfu
- Cynhaliwyd brawf ar radio gymunedol (Radio Preseli) yn 2005.

2. Treftadaeth a Diwylliant

- Cyhoeddwyd ail lyfr hanes yn 2005
- Cyhoeddwyd taflen treftadaeth / teithiau cerdded yn ardal Landysilio a Chlunderwen yn 2007

3. Amgylchedd

- Paratowyd cynllun hyrwyddo'r pentref
- Mae'r llwybr cyhoeddus drwy mynwent yr eglwys wedi cael ei wella a chrewyd gardd bywyd gwyllt hygyrch yno – sy'n cynyddu bio-amrywiaeth.
- Cyhoeddwyd taflen treftadaeth / teithiau cerdded i Landysilio a Chlunderwen yn 2007.
- Cynhaliwyd cwrs gweu helyg yn y fynwent yn 2006.
- Cynhaliwyd digwyddiad Bywyd Gwyllt yn eich Bro yn y fynwent yn 2008.

4. Economi Lleol (yn cynnwys Twristiaeth)

- Cwblhawyd cyfeirlyfr busnes ar gyfer Ward Maenclochog yn 2006
- Lansiwyd gwefan busnes ar gyfer Ward Maenclochog

- Hyrwyddir gwyliau gwyrdd ayyb yn yr ardal gan Wyliau'r Lonydd Glas

5. Trafnidiaeth a Phriffyrdd

- Adeiladwyd y camau cyntaf o balmant rhwng Clunderwen ac Ysgol Bryn Conin

Cynigion y Cynllun Gweithredu Diwygiedig

1. Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn cynnwys Cyfathrebu, Chwaraeon a Hamdden

Sylwadau

Clustnodwyd angen clir yn y 60au am ganolfan lle y gallai nifer o fudiadau lleol gwrdd. Mewn ymateb i'r angen, codwyd digon o arian gan y gymuned i adeiladu neuadd i'r de o'r ysgol yn 1969. Mae nifer fawr o grwpiau a chymdeithasau yn defnyddio'r neuadd ar gyfer eu cyfarfodydd a gweithgareddau sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiadau megis partïon, cyngherddau, a gyrfaoedd chwist. Mae'n gartref i'r Cylch Meithrin ac mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal ei chyfarfodydd a sgyrsiau yno. Mae'r Clwb Cinio Llandysilio yn cwrdd yno unwaith y mis a'r Cylch Ti a Fi yn cwrdd yno ar ddyddiau'r wythnos.

Roedd y ddogfen drafod "*Cynllunio ein Hyfory*" wedi darganfod bod angen o fewn y gymuned gwella cyfleusterau a gwasanaethau'r gymuned yn cynnwys neuadd y pentref. Un ystafell gyfarfod yn unig oedd yno ar y pryd a lle cyfyng tu fewn. Roedd angen cyfleusterau newydd a chyfoes, i gwrdd ag anghenion y gymuned, gan gynnwys TG a mynediad i'r rhyngrwyd a dosbarthiadau cyfrifiaduron cysylltiol.

Yn 2007 cafodd y Neuadd ei hailwampio i radd helaeth ac ymestyn yn sylweddol ac erbyn hyn mae'n cynnwys nifer o'r nodweddion angenrheidiol yn cynnwys mynediad i'r anabl, ystafell fach cyfarfod, toiledau wedi'u adnewyddu a thoiled i'r anabl, cyntedd newydd, ardal fwy ar gyfer storio ac effeithiolrwydd ynni gwell.

Yn y Gweithdy Cynllunio Prosiectau Cynhaliadwy ym Mawrth 2008 trafodwyd profiad cymunedau eraill yn Sir Benfro sy'n aml cynnig ymarfer da a allai fod o fudd i Landysilio. Er enghraifft, sut mae neuaddau pentref eraill yn cael eu defnyddio, cynhyrchu cylchlythyron a threfnu gwyliau lleol neu ddathliadau sy'n neilltuol i'r ardal.

Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan bobl diddordeb i edrych ar ôl eu hiechyd a hoffent fwy o gyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol. Byddai cyfleusterau a dosbarthiadau ychwanegol yn gwneud cymryd rhan mewn gweithgarwch gorfforol yn haws, a llwybrau troed gwell. Cerdded a garddio yw'r ffyrdd mwyaf poblogaidd o wneud ymarfer corff .

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Parhau i wella Neuadd Y Pentref** – yn cynnwys offer angenrheidiol megis elfennau TG, *mynediad da ac yn rhad i'r rhyngrwyd,* system sain, peiriant ffacs, peiriant lluncopïo, *prynu taflunydd a bwrdd gwyn rhwngweithiol,* a chadeiriau 'uchel' i'r henoed.
- **Syniadau am TG a Mynediad i'r Rhyngrwyd** – mae'r prosiect arfaethedig yn cynnig rhoi nifer o bwyntiau mynediad cyfrifiadurol yn yr adeilad. I ddechrau, byddai mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei gynnig am rai oriau yr wythnos. Gellid trefnu rota o wirfoddolwyr i redeg y cynllun ond yn y tymor hir dylid cyflogi rhywun i wneud y gwaith – byddai gweithiwr â hyfforddiant TG yn hanfodol. Gallai busnesau lleol gynnig eu gwasanaethau a'u nwyddau ar-lein, a gallai safle cymunedol o bartneriaeth busnes hwyluso'r broses. Gellid datblygu cyfleusterau cynadleddau cyswllt fideo i alluogi cyfathrebu wyneb yn wyneb, trwy gyswllt mynediad y gymuned leol. Gellid gweld ymgynghorydd, doctor, cyfreithiwr, rheolwr banc wedyn wyneb-yn-wyneb trwy'r cyswllt fideo ar y sgrîn. Gelli'r dysgu nifer o gyrsiau astudio a hyfforddiant ar-lein o "astudiaeth diddordebau ymarferol", i fyny at astudio am radd ar-lein.
- **Denu defnydd cynyddol o'r neuadd** gan amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys
  - Caffi Cymunedol a 'Pryd ar Glud'
  - *Canolfan ddydd ar gyfer yr henoed, i gael ei rheoli gan y Cyngor Sir gyda warden preswyl*
  - *Dosbarthiadau a Gweithdai Addysg i Oedolion*
  - *Rhaglen o ffilmiau, sioeau a sgyrsiau (gyda nos a phrynhawn) fydd yn denu pobl o bob oedran a diddordeb. Nodwyd y cynnig hwn fel gweithrediad uchaf ei flaenoriaeth yn y gweithdy diweddar.)*
  - *Sefydlu Clwb Ieuenctid*
  - Cynnal disgo gymunedol.

- *Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio* ***ynni o ffynonellau adnewyddadwy*** *yn y Neuadd.*

- **Capel Blaenconin** – mae'r brif iet haearn a'r wal gynhaliol mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd ac felly mae angen adnewyddu cyflawn. Mae angen gwella'r toiledau hefyd i gynnwys cyfleusterau a mynedfa i'r anabl.
- **Hysbysfyrddau** – mae angen hysbysfyrddau cymunedol yn Llandysilio i arddangos gwybodaeth am y pentref ac i hysbysebu cyfarfodydd lleol, digwyddiadau a gwyliau.

CHWARAEON A HAMDDEN

Sylwadau

Mae galw clir am well cyfleusterau chwaraeon a hamdden i'r gymuned. Mae lleoliadau, cyfleusterau a gwasanaethau addas yn gyfyng iawn ar hyn o bryd, yn arbennig i bobl ifanc. Mae yna Fudiad Maes Chwarae Llandysilio yn gweithredu yn barod ac fe awgrymwyd bod y maes chwarae yn safle delfrydol i lawer o gynigion arfaethedig i wella cyfleusterau hamdden y gymuned.

Mae galw cynyddol am ystod fwy eang o gyfleusterau chwaraeon yn y gymuned, ynghŷd â chynnig offer ychwanegol i redeg dosbarthiadau cadw'n heini ac ymarfer ffitrwydd.
Byddai cyfleusterau o'r fath ynghŷd â darpariaeth i'r ifanc yn rhoi gwell cyfleoedd iddynt ac i grwpiau oedran eraill yn y gymuned. Byddai'r estyniad i neuadd y pentref yn cwrdd â rhai o'r anghenion hyn, ond mae angen gwell cyfleusterau allanol hefyd.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Ardal Chwarae Eang** – mae prosiect arfaethedig i greu ardal chwarae eang i arddegwyr y pentref, lle chwarae 20m wrth 10m i gemâu tîm ag unigol, eisoes wedi dechrau. Bydd hwn yn cynnwys cyfleusterau pêl-droed, rygbi, hoci, pêl-fasged, pêl-rwyd, tenis ag un ramp sglefr-fyrddio isel ar y tarmac presennol. Mae angen datblygu'r prosiect i ymgynnwys dau ramp beicio mynydd, o bosib wedi eu creu o rwber neu blastig wedi ailgylchu. Fel rhan o'r datblygiad hwn hefyd, gellid ystyried cwrs beicio fel rhan o'r maes chwarae.
- **Mudiadau chwaraeon** – Mae mudiadau chwaraeon yn y gymuned wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r caeau chwarae ond byddai angen mynediad i gyfleusterau ystafelloedd newid a chawodydd.

- **Cynllun Chwarae Adeg Gwyliau** – cynigir cynllun chwarae yn neuadd y pentref yn ystod gwyliau'r haf. Byddai cynllun o'r fath yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon i genhedlaeth iau'r gymuned.

Mae'r bobl ifanc ar y cyfan yn cefnogi'r syniadau uchod gyda'r awgrymiad pellach o **ffurfio clwb pysgota**.

2. AMGYLCHEDD

Sylwadau

Ceir pwyslais cryf ar y galw i ddiogelu a hyrwyddo amgylchedd naturiol yr ardal. Nodwyd cerdded, seiclo a marchogaeth yn weithgareddau sy'n deniadol a hefyd mae budd iechyd gyda nhw. Ystyriwyd bod angen am welliannau i ansawdd ac ehangder y rhwydwaith, yn enwedig i gynydd hygyrchedd ar gyfer y rhain gydag anhawster symud ar hyd llwybrau agos i'r pentref ac i gynnal llwybrau mewn cyflwr da. Hefyd mae angen gwella arwyddbyst ar y teithiau cerdded a rhosfeydd o amgylch y gymuned.

Yn y gorffennol, mae trigolion wedi dangos sut y maent yn barod i ymrwymo i gynlluniau i wella'r pentref. Mae yna grwpiau bychain o fewn y gymuned â diddordebau arbenigol, a gellid defnyddio'r brwdfrydedd hwn er budd mewn prosiectau amgylcheddol arbennig.

Ers Cynllun Gweithredu 2003 paratowyd cynllun gwella Llandysilio, a darparwyd rhai seddau ychwanegol.

Gardd Eglwys Sant Tysilio – mae hanes y safle yn dyddio nôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, efallai cyn hynny. Ni wyddys pryd y sefydlwyd yr eglwys ond mae yna gyfeiriad ati yn 901 ym mhlwyf Abergwili, Caerfyrddin. Adeiladwyd yr eglwys bresennol, sydd yn gwasanaethu sawl cymuned, yn 1898 ond ffurfiodd y gangell a'r bwa pigfain ran o'r eglwys gynharach. Mae Eglwys Llandysilio yn gyfoethog mewn cerrig arysgrifiedig sy'n dyddio nôl i'r chweched ganrif. Mae'r porth fynwent wrth fynedfa'r eglwys wedi cael ei ailosod yn ddiweddar. Hefyd mae'r pwll bedyddio wedi'i glirio a chodwyd meinciau yn ymyl. Mae llawer o goed mawr yn y fynwent bresennol, gyda rhai cloddiau yn ffinio â thir fferm a'r mwyafrif dan borfa gyda llwybr cyhoeddus yn rhedeg drwyddi.

Mae'r eglwys yn gartref i nythfa o ystlumod a gwelir sawl math o aderyn yn y fynwent.

Mae aelodau a ffrindiau'r Eglwys wedi creu cornel bywyd gwyllt gyda mynediad i'r gymuned yn rhan isaf y fynwent. Nid oedd yr ardal hon yn cael ei ddefnyddio lawer ac doedd dim yno feddau na cherrig beddau. Mae'r ardd sy'n ymyl i'r pwll bedyddio newydd ei glirio, yn cynnwys lle eistedd am fwynhad tawel, ar agor i drigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'r llwybr yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn a choets. Codwyd panel dehongli a gosodwyd bocsys adar.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Grŵp yr Amgylchedd** – Grŵp Gymunedol o wirfoddolwyr parod fydd yn helpu i gynnal ardaloedd trwy'r pentref a hefyd cymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol megis ailgylchu, hyrwyddo bywyd gwyllt, gwrteithio cymunedol a chael gwirfoddolwyr o'r gymuned i weithio ar brosiectau garddio.
- **Hyrwyddiad y Pentref** – yn dilyn cynllun hyrwyddiad wedi ei gynllunio i edrych ar y pentref cyfan, mae angen o hyd am gwelyau blodau ger arwyddion y pentref; llefydd eistedd ychwanegol trwy'r pentref ond yn arbennig ger Carreg Goffa'r Rhyfel; ardal wedi tirlunio ger y pobydd; plannu Cennin Pedr ger y cloddiau a basgedi crog. Cynigir y dylai pob cebl drydan a ffôn fod tan ddaear. Cynigir hefyd gwella lled palmentydd, er enghraifft tu allan i Gapel Pisga, ac i greu palmant ychwanegol ger y Garreg Goffa.
- **Gwaun blodau gwyllt/coetir –** mae potensial i ddatblygu a hyrwyddo rhan o faes chwarae neuadd y pentref a'i droi yn waun blodau gwyllt neu goetir.
- **Ailgylchu** – awgrymir sgrinio gwell o'r ardal ailgylchu bresennol ger Ysgol Gymunedol Brynconin. Mae cynnig presennol i ail-leoli'r cyfleusterau ailgylchu.
- ***Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ailgylchu*** *– yn enwedig plastigau.*
- ***Clustnodi safle ar gyfer compostio cymunedol.***
- **Biniau Sbwriel** – mae angen mwy o finiau sbwriel yn y pentref yn arbennig ger meysydd chwarae neuadd y pentref.
- **Llwybrau Troed a Seiclo** – mae angen llwybr troed o gwmpas maes chwarae neuadd y pentref yn cynnig llawr sy'n addas ar gyfer pawb e.e. coetshis gwthio, cadeiriau olwyn.
- **Llwybrau presennol** - mae angen gwella'r llwybrau troed sydd eisoes ar gael yn y gymuned.

- **Llwybr Marchogaeth** – cynigir datblygu llwybr marchogaeth gydag arwyddion da ar hyd ffyrdd tawelaf y pentref.
- **Ail-agor hen reilffordd** – cydweithio â chymunedau agos a'r Cyngor Sir i archwilio'r posibilrwydd o ail-agor yr hen reilffordd a arferai redeg drwy ran o bentref Llandysilio i Rosebush, i'w defnyddio fel llwybr amlddefnydd (cerdded, seiclo a marchogaeth).

3. TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Sylwadau

Mae ei diwylliant lleol cyfoethog a'i threftadaeth o bwys mawr i'r gymuned yn Llandysilio. Dathla'r pentref hanes lleol a thraddodiadau trwy drefnu gwyliau canu a cherddoriaeth a digwyddiadau diwylliannol. Ceisia'r trigolion ddarganfod gwahanol ffyrdd o recordio a hybu treftadaeth leol fel rhan o gadwraeth hunaniaeth y gymuned leol.

Yn 2001 cynhyrchwyd llyfr o luniau yn bennaf gan Gymdeithas Hanes ac Adloniant Llandysilio, yn darlunio bywyd y pentref, y presennol a'r gorffennol, llyfr dan yr enw "Llandysilio 2000", oedd yn llwyddiannus iawn. Cyhoeddwyd ail lyfr hanes yr ardal (Hanes Llandysilio) yn 2005.

Mae'r gymuned yn dymuno ymrwymo athrawon a disgyblion Ysgol Brynconin i ddatblygiadau dyfodol y pentref. Yn ddiweddar, enillodd Eglwys Sant Tysilio arian i brynu offer cyflwyno digidol, er mwyn i'r gymuned allu rhanu hanes lleol a gwybodaeth ddiwylliannol.

Cyn adeiladu capel yn y pentref, arferai'r Annibynwyr addoli ar foreau Sul mewn gwahanol bentrefi yn ôl y dewis. Agorwyd capel cyntaf Llandysilio yn 1826 – safai rhwng lleoliad y Capel Pisga presennol a'r ffordd fawr lle gwelir y fynwent heddiw. Cafwyd gweinidog – William Thomas – yn 1833. Prynwyd tir yn 1866 i agor mynwent ac i adeiladu tŷ-capel ac yna yn 1902, adeiladwyd capel newydd sbon – y Pisga presennol – ar gost o £1,985.

Adeiladwyd y Capel y Bedyddwyr gwreiddiol, Capel Blaenconin yn yr 1840au a'r capel presennol yn 1933. Mae'r capel yn gwasanaethu fel lle addoliad i Landysilio a Chlunderwen ac ardaloedd eraill. Mae ganddo festri fawr a ddefnyddir yn bennaf

gan yr Ysgol Sul ond hefyd fel ystafell luniaeth ar adegau cymanfaoedd canu neu angladdau.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Capel Pisga** – yn yr adroddiad ymgynghori "*Cynllunio ein Hyfory*" awgrymwyd y dylai Capel Pisga cael ei ddefnyddio fel canolfan ddiwylliannol yn ogystal â lle addoliad. Mae ganddo acwstig delfrydol ar gyfer cyngherddau, yn gallu eistedd 400 o bobl a'r organ bîb orau yn yr ardal. Mae maes parcio yn y cefn. Mae Côr Dewi Sant yn ymarfer yn y Capel yn rheolaidd. Mae'n ased i'r gymuned a'r bwriad ydyw trefnu Gŵyl Gerdd flynyddol mewn cysylltiad â digwyddiadau lleol a phrosiectau diwylliannol eraill. Cynhyrchwyd cynnig datblygu cynhwysfawr a allai cael ei ymgymryd yn yr agweddau pendant canlynol:
  (a) System anwythiad dolen – byddai hwn yn galluogi pobl sy'n gwisgo cymorth clywed gyda swîts "T" i dderbyn fwy o sain heb darfu ar bobl eraill.
  (b) Cegin a Thoiledau – cegin i fodloni safonau Iechyd a Diogelwch. Gwella cyflwr y toiledau gan gynnwys mynedfa i'r anabl.
  (c) Cyfleusterau newid ar gyfer aelodau corau
  (d) Goleuadau
  (e) Atgyweirio Adeiladau ac Adnewyddu – mae cynllun a chostiadau ar gael.

Ystyriwyd gwella cyfleusterau'r Capel i bawb yn flaenoriaeth yn y gweithdy a gynhaliwyd ym Mawrth 2008.

- **Arddangos Celfluniau a Lluniau** – nodwyd bod angen cyngor ar osod arddangosfeydd parhaol o gelfluniau, lluniau ac yn y blaen, o bosib yn neuadd y pentref neu yn yr hen fwthyn to sinc ar bwys Nant-y-ffin, a allai fod ar agor i'r cyhoedd ar adegau arbennig yn y flwyddyn. Gellid gosod to newydd ar y bwthyn fel rhan o'r prosiect.
- ***Prynu dresel / uned arddangos*** *i ddangos arteffactai – o bosib o fewn Neuadd y Pentref.*
- **Gwyliau a Digwyddiadau** – cynigir trefnu gwyliau arbennig yn cynnwys arddangosfeydd a theithiau o gwmpas safleoedd treftadaeth a hanesyddol y pentref, megis bedd y bardd enwog, Waldo Williams, sydd ym mynwent Capel Blaenconin. Os bydd digon o ddiddordeb, gallai diwrnod o'r fath ddod yn achlysur rheolaidd. Gallai'r fath ddathliadau gysylltu â cynigion eraill a

gynhyrchwyd gan gymunedau ymylol. Dylai hanes yr Eisteddfod Lled-Genedlaethol a gynhaliwyd yn flynyddol yn y gymuned rhwng 1922 a 1931 ffurfio rhan o ddehongliad y pentref.

4. BUSNES A MENTER yn cynnwys TWRISTIAETH

Sylwadau

Cyfleusterau presennol y pentref ydyw Neuadd Y Pentref, Eglwys Sant Tysilio, Capel y Bedyddwyr Blaenconin, Capel Pisga, Ysgol Gynradd Brynconin, meysydd chwarae neuadd y pentref, Swyddfa Bost/Siop, dau bobty, Gwesty Nant-y-ffin, tafarn yr Angel a thafarn y Bwsh. Mae gan y pentref llawer o fusnesau llai gan gynnwys adeiladwyr a seiri, garej, busnes beiciau modur, busnes peiriannau amaethyddol, busnes ffotograffiaeth, canolfan farchogaeth, parc carafannau a fferm bysgod.

Er hyn, mae'n anodd dod o hyd i grefftwyr profiadol yn yr ardal ac mae cyfleoedd gwaith arall ar y cyfan yn isel. Hefyd, ffactor pwysig mewn llwyddiant unrhyw fusnes yw bod adeiladau addas ar gael i weithio ynddynt. Oherwydd hyn, a rhesymau eraill, mae rhaid i bobl ifanc adael yr ardal i chwilio am waith.

Mae gan hanes a threftadaeth leol gysylltiadau cryf â'r diwydiant twristiaeth yn y gymuned. Mae'r pentref hefyd wedi ei leoli mewn ardal amaethyddol ac mae'r gymuned yn gartref i ffermwyr deallus â sgiliau traddodiadol sy'n berchen ar ddosbarthiad eang o fedrau amaethyddol. Dengys yr holiadur cymunedol bod 6 o'r rheiny a wnaeth ymateb yn berchen ar, neu'n rheoli busnes yn y gymuned a 4 ohonynt yn berchen ar eu heiddo.

Yn 2006 cyhoeddwyd Cyfeirlyfr Busnes o fusnesau lleol yn ardal Ward Maenclochog. Dilynwyd hwn yn 2008 gyda gwefan fusnes newydd ar gyfer y ward.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Unedau Gwaith** – byddai unedau ar rent nid yn unig yn cynnig lleoliadau addas i fusnesau presennol ond hefyd yn annog pobl leol i ddechrau busnesau newydd, a hefyd denu busnesau arall i weithredu o'r unedau hyn. Os byddai'r rhain yn addas i

brosesu bwyd byddent yn annog arall gyfeirio. Awgrymir datblygu'r gweithdai hyn yn yr ardal yn agos i'r ysgol.

- **Cyngor Busnes a Hyfforddiant** – mae mynediad hawdd i gyrsiau hyfforddiant cyngor busnes a gweithdai i roi gwybodaeth ychwanegol ar ddechrau busnesau yn yr ardal yn hanfodol. Mae'r syniadau a gynigir i symbylu'r economi lleol yn cynnwys:
  - Canolfan Ymgynghorol Gydweithredol
  - Sefydlu sianelu dosbarthu lleol ac annog busnesau a marchnatwyr lleol i weithio'n agos gyda'i gilydd
  - Defnyddio defnyddiau lleol mewn prosiectau adeiladu
  - Annog busnesau celf a chrefft a hybu crefftau lleol – trefnu Ffair Cynnyrch Lleol
  - Parhau i hyrwyddo gwyliau gwyrdd a theithiau cerdded, a chynhyrchu mapiau o deithiau sydd ar gael yn yr ardal
  - Archwilio'r posibilrwydd o ail-gyflwyno cloddio am lechi yn yr ardal
  - Tyfu a gwerthu mwy o gynnyrch amaethyddol yn lleol
  - Annog cynhyrchu lleol trwy greu mudiadau ffermio cydweithredol, ac annog cyfleoedd ffermio organig
  - Annog cynhyrchu ynni lleol e.e. biomas a methan
  - Defnyddio twneli-poly i ymestyn y tymor a chynyddu'r ystod cynnyrch a gynhyrchir yn lleol
  - Archwilio Cynllun LETS (System Farchnata Gyfnewid Lleol)

5. TAI

Sylwadau

Gan fod cyflogau'n gymharol isel yn yr ardal, mae pobl leol yn ei chael hi'n anodd i brynu tai. Mae angen cyffredinol i ddatblygu tai y gall pobl ifanc a theuluoedd rhentu neu brynu er mwyn eu cadw yn yr ardal. Dylid gwneud pob ymdrech i annog adeiladwyr lleol i greu llety addas i'r henoed a phobl anabl yn y gymuned.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd / Dŵr Cymru wedi dweud wrth y Cyngor Sir fod system carthffos y pentref yn orlawn. Yn y gorffennol, mae'r system wedi gorlifo'r heol fawr a'r adeiladau ger Capel Blaenconin. Mae peth gwaith gwellhaol wedi helpu'r achos ond bydd datblygiad tai yn y pentref yn gyfyngedig oherwydd mae Asiantaeth yr Amgylchedd / Dŵr Cymru wedi cynghori'r Cyngor Sir i wrthod caniatâd cynllunio.

Awgrymir yn yr holiadur cymunedol y bydd 7 o'r rheiny a wnaeth ymateb yn y ddwy flynedd nesaf.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **System Carthffos** – mae'r system carthffos bresennol yn anaddas ac mae angen ei gwella ar unwaith, yn enwedig cyn unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn y pentref.
- **Datblygiadau Tai** –
  Er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio hwyluso adeiladu tai ar gyfer angen penodol sy'n cynnwys
  - tai cyntaf i bobl ifanc
  - llety lloches i'r henoed, h.y. byngalos gyda chymorth warden
  - llety i'r anabl
  - tai teuluol

Un safle posibl yw tir yr hen Neuadd Eglwys (a ddymchwelwyd yn ddiweddar).

6. TRAFNIDIAETH A PHRIFFYRDD

Sylwadau

Mae cymunedau Llandysilio a Chlunderwen yn ddwy gymuned agos iawn. Ers Cynllun Gweithredu 2003 adeiladwyd palmant sy'n mynd tua hanner ffordd rhwng y ddwy gymuned. Byddai cwblhau'r palmant hwn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y cymunedau yn ogystal â hyrwyddo dull trafnidiaeth mwy iachus a chyfeillgar i'r amgylchedd, yn enwedig i blant ysgol. Byddai hefyd yn creu ffordd o gyrraedd Gorsaf Clunderwen ar droed / beic, a hyrwyddo defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae cynlluniau wedi cael eu tynnu i fyny i wella'r mynediad i'r Neuadd ac Ysgol Bryn Conin, fydd yn cynnwys cilfach barcio am fws a cheir i'r de o fynedfa'r maes chwarae.

Pryder parhaol yn y gymuned yw cyflymdra'r traffig trwy bentref Llandysilio, er gosodwyd arwyddion dros dro yn ddiweddar i arafu cyflymdra'r drafnidiaeth. Yn ôl yr holiadur cymunedol, y car yw'r modd mwyaf poblogaidd o deithio i'r gwaith a'r rhan fwyaf o gyfleusterau eraill. Er hynny, mae llawer o bobl yn cerdded i'r swyddfa'r post a'r ganolfan gymunedol (neuadd y pentref). Fe wnaeth 11 o'r rheiny a ymatebodd, ddatgan byddai'n well ganddynt ddefnyddio cludiant arall tasai hi'n bosibl. Byddai'n well gyda'r

rhain ddefnyddio'r bws, ond y prif reswm am beidio â gwneud hyn yw'r gwasanaeth gwael / amserlen anghyfleus.

Cynigion

Dangosir cynigion o'r gweithdy yn 2008 yn *llythrennau italaidd*

- **Palmant/Llwybr Seiclo o Glunderwen i Ysgol Gymunedol Brynconin** – *dylai gorffen y palmant hwn fod yn flaenoriaeth.*
- ***Creu llwybrau ar gyfer seiclo hamddenol*** *a gwella diogelwch i feicwyr, yn enwedig ar hyd y ffyrdd gradd A..*
- **Palmentydd** – mae diffyg palmentydd yn y pentref, ac mae angen adnewyddu ac atgyweirio'r palmentydd presennol.
- **Arafu Traffig** – er mwyn taclo'r gofidiau ynglŷn â chyflymder traffig, cynigir lleihau'r cyfyngder cyflymdra i 20m.y.a. ger Ysgol Gymunedol Brynconin. Byddai cyflwyno mesurau arafu traffig fel camerâu cyflymdra ar naill ochr y pentref, "sleeping policemen", croesffordd Sebra (neu oleuadau rhybudd Ambr), ag arwyddion "araf – plant yn chwarae" yn gymorth i leihau gofidiau trigolion.
- **Parcio ceir i ffwrdd o'r stryd** – mae angen dirfawr am hyn ar ganol y pentref, ag arhosfan lydan i adael i'r bws ysgol dynnu i ffwrdd o'r ffordd fawr pan yn codi a dadlwytho plant, hyn i gyd yn cynyddu diogelwch y ffordd. Byddai parcio "herringbone" yn cynnig mwy o lefydd parcio ger neuadd y pentref ac i ddigwyddiadau yn yr Ysgol, ar dir y Cyngor Sir.
- **Gwell goleuadau stryd** – mae angen gwell goleuadau stryd i gymryd lle'r system "ad hoc" sydd ar hyn o bryd yn goleuo'r pentref yn rhannol. Dylai'r cynnig sicrhau fod pob lôn sydd ar hyn o bryd yn anaddas wedi ei goleuo. Nodwyd yn arbennig yr ardal gyferbyn a'r Garreg Goffa, gyferbyn Tafarn y Bush, a hefyd ar Heol-y-Llan.
- **Ceblau dan-ddaear** – cynigir archwilio'r posibilrwydd i rhoi pob gebl ffôn a thrydan yn y pentref o dan y ddaear.
- **Arwyddion Ffyrdd Llandysilio** – mae'n bwysig sillafu enw'r pentref yn gywir ar arwyddion ffyrdd – "**Llandysilio**" nid "Llandissilio".
- **Gwylio'r Gymuned** – cynigia'r gymuned bod angen mwy o gefnogaeth ar y cynllun Gwylio'r Gymuned sy'n bodoli eisoes yn y pentref.
- **Bws-Mini Gymunedol** – byddai bws-mini gymunedol o fudd mawr i fudiadau lleol, grwpiau a sefydliadau gwirfoddol. Mae Ysgol Sul Capel Pisga wedi defnyddio Bws Cymunedol Crymych yn y gorffennol a'i chael yn ddefnyddiol iawn, ond mae

angen cerbyd cymunedol ar Llandysilio i bensiynwyr y pentref, pobl nad yw yn gallu gyrru (neu sydd heb drafnidiaeth) a phobl anabl.
- **Annog mwy o ddefnydd o wasanaeth y Ddraig Werdd bws mini** – a allai gludo pobl o ac i weithgareddau yn Llandysilio a'r ardal.
- **Gwyneb y Ffordd** – ystyrir gwyneb y ffordd trwy Llandysilio yn wael ac mae angen sylw prys i'w gwella hwy.

GRWPIAU GWEITHREDU /GWEITHGORAU

Er mwyn i'r Cynllun Gweithredu gael ei symud ymlaen yn effeithiol, cynigir sefydlu Gweithgorau â diddordebau arbennig o fewn Cymdeithas Sylio, os nad yw rhain yn bodoli eisioes.

Mewn ymgynghoriad â'r darparwyr perthnasol, er enghraifft yr Awdurdod Priffyrdd neu CSP, byddai'r grwpiau yn ganolbwyntio ar baratoi cynlluniau mwy manwl gan roi blaenoriaeth a ffocws ar y cynigion a ellir cwblhau'n gynnar.

Gallai'r Gweithgorau ganolbwyntio ar (er enghraifft):
- Y Gymuned – cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebiadau.
- Yr Amgylchedd – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff.
- Busnes a thwristiaeth
- Treftadaeth, hanes a diwylliant.
- Tai a Gwasanaethau
- Trafnidiaeth a Phriffyrdd.

Mae'n bwysig bod y grwpiau yn:
- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytûn ac yn adrodd i Gymdeithas Sylio
- Gweithio gyda grwpiau presennol, gan gynnwys Cyngor y Gymuned ac asiantaethau.
- Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- Hysbysu'r gymuned ehangach ynghylch unrhyw gynnydd a wneir.

Bydd PLANED a mudiadau sy'n bartneriaid yn cynnig cymorth, cyngor a chyllid i gynorthwyo a datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.